

Covid-19 a'r sefyllfa'n datblygu

Y mae Paul Mackness, Archddiacon Tŷ Ddewi, yn ateb rhai cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn aml am ein gwasanaethau, cynadleddau, cyfarfodydd a rheolaeth o dan y cyfyngiadau presennol

Cefais wahoddiad i geisio rhoi gorolwg o ddatblygiadau a newyddion am fywyd eglwysig o dan Covid-19. Sylwer bod y wybodaeth yn newid drwy'r amser a bod yr erthygl hon yn gywir wrth i mi ei hysgrifennu. Hefyd yr wyf wedi ceisio cadw pethau'n syml. Os oes gennych gwestiynau dylech ofyn i'ch offeiriaid lleol, archddiacon neu'r Swyddfa Esgobaethol a byddwn yn gwneud cymaint ag y gallwn i'ch helpu.

Ail-agor Eglwysi – Gwasanaethau, Priodasau, Angladdau a Cherddoriaeth



Y mae llawer o'n heglwysi nawr yn ail-agor am wahanol ffurfiau o wasanaeth. Yr ydym ar hyn o bryd yn y Cyfnod Ambr, fel y'i penderfynwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n caniatáu addoliad cyhoeddus cyfyngiedig. Y mae hyn yn golygu ein bod yn gallu cynnig addoliad sylfaenol yn unig, nid yr addoliad normal fel y byddem yn ei ddisgwyl.

Yn y Cyfnod Ambr mae gennym hawl i gynnal gwasanaeth y Gair, Gwasanaeth Cymun Syml a Bedyddiadau (ond dim trochiad) yn yr eglwys. Gellir cael mwyafrif o 30 o bobl hefyd tu allan ar dir sy'n berchen i'r eglwys. Gallwch hefyd gyfarfod mewn Neuadd yr eglwys i addoli.

Yr ydym yn gallu cynnal priodasau ac angladdau yn yr eglwys unwaith eto. Ond, dim ond trwy wahoddiad y gellir gwneud hyn ac yn gyfyng i'r nifer sy'n gallu ymarfer pellhau cymdeithasol o fewn yr adeilad. Ni ellir priodi gyda gostegion ar hyn o bryd; fel arfer dim ond drwy drwydded gyffredin gan ddirprwy.

Y mae cerddoriaeth, ond nid canu, yn cael ei ganiatau, ac fe ganiatawyd canu'r organ eto yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. Y mae'r grŵp sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar faterion ffydd yn ceisio symud ymlaen gyda mater canu- hyd yn oed i gorau yn unig i ddechrau.

Y mae popeth uchod yn fater o asesiad risg sy'n gofyn am yr Archddiacon i'w arwyddo. Y mae clerigwyr a lleygwyr yn AGLI yn gweithio'n galed i sicrhau bod y nifer o wasanaethau y gallent gynnig yn realistig, a'u bod yn cynnig, ble mae'n bosibl, Addoliad ar lein hefyd.

Gellir dod o hyd i arweiniad llawn a diffiniadwy ar y Gwefan Taleithiol: <https://www.churchinwales.org.uk/en/clergy-and-members/coronavirus-covid-19-guidance/>

Corff Llywodraethol

Bwriedir cynnal y Corff Llywodraethol (CLI) yn y cnauld gyda phellter cymdeithasol ddydd Mawrth Medi 8fed, gyda nifer cyfyngedig o aelodau (digon i ffurfio cworwm) yn cyfarfod er mwyn pasio cyfreithiau i alluogi 'r CLI i gyfarfod yn electronig. Os digwydd hyn, bydd y CLI llawn yn cyfarfod ar y deuddydd canlynol drwy gynhadledd fideo er mwyn gweithredu eu busnes. Gobeithir pasio cyfreithiau a fydd yn caniatáu i GCB (AGMs) a chyfarfodydd eraill i ddigwydd yn electronig.

Y mae cynlluniau i edrych at ymestyn cyfarfod y BLI yn Medi 2021 i ddal i fyny â busnes a gollwyd oherwydd canslo CLI Eberill 2020.



Cynhadledd Esgobaethol 2020 ac Etholiadau Esgobaethol

Y mae'r Pwyllgor Sefydlog yn anffodus wedi gorfod gohirio/canslo'r Gynhadledd 2020 ac wedi gorfod ymestyn hyd y Gynhadledd Esgobaethol am fyny at flwyddyn ychwanegol. Y rheswm am hyn yw'r anallu i gynnal etholiadau i aelodau'r Gynhadledd, sydd yn nawr yn seiedig ar yr AGLI. Bydd y Gynhadledd bresennol, yn gorffen cyn gynted ag y medrwn gynnal etholiadau yn yr AGLI.

Gobeithir y gellir trefnu Cynhadledd Eithriadol yng ngwanwyn 2021 (yn dibynnu ar Covid-19). Efallai bydd hon yn y cnauld ond yr ydym yn edrych ar opsiynau i gyfarfod yn electronig (a fydd angen cyfraith CLI).

Y mae Parch. Caroline Mansell wedi ymddiswyddo o'i gwaith fel Ysgrifennydd Clerigol i'r Gynhadledd Esgobaethol a gofynwyd i fi wasanaethu fel Ysgrifennydd Clerigol Dros dro am gyfnod byr i gadw golwg dros faterion nes bydd yr Esgob a'r Pwyllgor Parhaol yn gallu apwyntio Ysgrifennydd Clerigol newydd.

Yr ydym yn gobeithio cynnal etholiadau tair blyneddol addas i'r Corff Llywodraethol, Corff Cynrychiolwyr a chyrrff taleithiol eraill yn ystod Medi a Hydref. Bydd rhain dipyn yn wahanol i'r ffordd y gwnaethpwyd pethau yn y gorffennol, gallant gael eu gwneud yn electronig neu gymysgedd o ffyrdd, edrychwch ar gwefan yr esgobaeth am fanylion pellach.

Rheolaeth AGLI



Fel y soniwyd uchod, gobeithir bydd y CLI yn dod â chyfraith i adael i'r CCB i gael eu cynnal yn electronig. Bu dryswch ychwanegol eleni oherwydd yn 2020 y mae'n rhaid i ni adnewyddu ein Rholiau Etholiadol yn gyfangwbl ac hefyd ethol ein cynrychiolwyr i'r Gynhadledd Esgobaethol. Hwn oedd y rhwystr i allu cyfarfod yn electronig gan fod y CCB yn gyfarfod agored i'r plwyf /AGLI i gyd. Dywed Mainc yr Esgobion y gall CCB gael eu cynnal hyd at Hydref 31ain, ond y mae rheolau Covid-19 wedi atal ein gallu i wneud hyn. Rhoddwyd hawl i swyddogion yr eglwysi i aros yn eu swyddi tan i'r CCB gael eu cynnal ac y mae clerigwyr wedi cael yr hawl i apwyntio wardeniaid pan mae bwch ar sail dros dro hyd nes y gallant gael eu gwneud yn barhaol (os yn Warden y Bobl).

Y mae rhai Cynghorau AGL, beth bynnag, yn gallu cyfarfod yn electronig ac yn gweithio'n galed i gadw eglwysi yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn wybodus o'r hyn sy'n digwydd a cheisio paratoi i weithio o dan ffyrdd newydd a 'normal newydd'. Y mae hyn hefyd yn wir am bwyllgorau eglwysig, sy'n cyfarfod yn electronig neu weithiau, gyda phellter cymdeithasol, tu allan.

Mantolen Flynyddol

Gellir cwblhau y Fantolen Flynyddol sy'n cael ei chyflwyno i'r Corff Cynrychioli (RB) yng Nghaerdydd nawr ei hanfon. Gellir gwneud hyn yn electronig ac yng ngyd-destun AGLI yn golygu gall yr RB roi y cyfrifon at ei gilydd i'r holl AGLI i'r fantolen flynyddol. Bydd rhaid i'r cyfrifon a gyflwynir gael eu derbyn gan CCB bob AGLI ond yn gallu cael eu cyflwyno ar y deallusrwydd hyn, gan nad yw dogfennau RB yn rhai cyfreithiol, yn wahanol i adroddiad plwyfol flynyddol.



Yn ystod y cloi y mae'r Bwrdd Ariannol Esgobaethol (DBF) wedi bod yn gweithio'n galed yn edrych ar ffyrdd y gallwn gefnogi AGLI wrth gynhyrchu cyfrifon yn y dyfodol fel bod pob AGLI yn gorff ymddiriedolaeth i'r holl eglwysi o dan ei gofal. Y mae cynllun peilot yn mynd i gael ei dreialu yn AGL Narberth a Dinbych y Pysgod i weld a yw hyn yn bosibl, ac i weld pa gefnogaeth ychwanegol fydd ei angen neu ei gynnig. Yr ydym hefyd yn edrych ar ffyrdd i gynorthwyo gyda chofrestru AGLI gyda'r Comisiwn Elusennau.

Bydd yr Esgobaeth hefyd yn anfon allan mantolen i'w llenwi i roi manylion cyswllt cyfredol AGLI a Swyddogion Eglwysig, fel y gallwn gysylltu gyda'r bobl perthnasol a chywir i'ch cadw yn ymwybodol ac yn wybodus o ddatblygiadau a newyddion.